

GALWAD AM GYNIGION DYDDIAD CAU 30 EBRILL 2012

CILT CYMRU WALES

GWOBRAU TRAFNIDIAETH CENEDLAETHOL CYMRU 2012

CINIO GWOBRWYO YSTAFELL GYNULLIAD NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD

12:00 i ddechrau am 12:30
22 MEHEFIN 2012

CATEGORÏAU:

1. ***Medaliwn R T Wynn am Y Papur Myfyriwr Gorau*** *(papurau ar logisteg neu drafnidiaeth)*
2. ***Hyfforddi / Datblygu Pobl*** *(yr hyn mae eich sefydliad wedi'i wneud i sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn cynllunio, datblygu a chyflenwi trafnidiaeth a mynediad da)*
3. ***Rheoli Galw mewn Teithio*** *(polisi neu brosiect sy'n helpu i leihau'r galw am deithio, neu sy'n sicrhau bod teithio'n digwydd drwy ddulliau mwy cynaliadwy, fel bydd yr effaith a gaiff trafnidiaeth a gynhyrchir ar gymunedau a thrigolion lleol yn lleihau)*
4. ***Partneriaeth*** *(prosiectau na allent fod wedi cael eu cyflawni heb gydweithio'n agos â sefydliadau eraill neu ar draws adrannau o fewn sefydliad)*
5. ***Rhagoriaeth mewn Trafnidiaeth Teithwyr*** *(yr hyn a nodir ar y tun!)*
6. ***Polisi, Cynllunio a Gweithredu Trafnidiaeth*** *(datblygu a chyflenwi polisi a chynllunio trafnidiaeth a fydd yn darparu buddion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac a fydd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy)*
7. ***Datrysiadau Arloesol*** *(gall hyn gynnwys datrysiadau TG, technoleg neu garbon isel neu ffyrdd newydd o weithio)*
8. ***Arfer Gorau mewn Logisteg***
9. ***Arfer Gorau o fewn Y Gadwyn Gyflenwi***
10. ***Gweithiwr/Gweithwyr Proffesiynol Trafnidiaeth y Flwyddyn***

Nod y Gwobrau yw dathlu arfer gorau ac amlygu sefydliadau a all wneud gwahaniaeth. Mae'r beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o ddatblygiad cynaliadwy a syniadau newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth parhaol i wasanaethau yng Nghymru.

Gwahoddir cyflwyniadau gan unigolion a mudiadau, yn rhai mawr neu fach, sy'n gweithredu yng Nghymru, ym myd trafnidiaeth neu logisteg. Rhaid bod y prosiect neu gynllun wedi cychwyn yn ystod blwyddyn galendr 2011 ac os nad yw wedi'i gwblhau, dylai fedru dangos allbynnau neu gyflawniadau clir o leiaf. Nid yw prosiectau a gychwynnwyd cyn Ionawr 2011 yn gymwys. Bydd y beirniaid yn marcio ar sail y meini prawf canlynol: ***E****ffeithiolrwydd ac effaith yr allbwn yn y sefyllfa a ddisgrifir;* ***D****efnyddio syniadau arloesol neu estyn arfer da i feysydd newydd;* ***LI****wyddiant wrth oresgyn heriau technegol ac anawsterau eraill;* ***A****rwyddocâd ehangach a chymhwysedd i amgylchiadau eraill;* ***M****ynegiant eglur a dealladwy ac* ***A****nsawdd y cyflwyniad.*

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymgeisio a amgaeir gyda'r daflen hon neu gallwch lwytho copi i lawr o dudalen Cymru gwefan CILTUK (http://www.ciltuk.org.uk/pages/regions/wales)

Rhowch Gynnig am y Gwobrau. Noddwch Wobr. Dewch i ginio. Dewch â'ch gwesteion. Dewch i gael eich gweld yn y man lle mae'n cyfrif. Bydd yr enillwyr yn cael cyhoeddusrwydd ledled y DU yng nghyfnodolyn CILT UK, 'Focus'.

Cewch fwy o fanylion gan Allison Glandfield drwy allison.glandfield@ciltuk.org.uk neu *Margaret Everson drwy margareteverson@yahoo.co.uk*